ymchwil canser cymru
cancer research wales

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Datganiadau Ariannol

**Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026**



**ymchwilcanser.cymru**

Rhif Elusen Gofrestredig: 1167290

# Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ........................ 3

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol......... 15

Datganiad o Weithgareddau Ariannol........ 18

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.................... 19

Datganiad Llif Arian ....................................20

Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian ................ 21

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol.............22

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad Ymarfer Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102).

# Amcanion a Gweithgareddau

## Amcanion yr Elusen

Amcanion Ymchwil Canser Cymru, er budd y cyhoedd, yw lleddfu salwch a hyrwyddo iechyd da trwy ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chanser a thechnegau posibl o'i drin a'i atal, gan ddarparu a chefnogi cyfleusterau ar gyfer ymchwil canser o ansawdd uchel yng Nghymru a thrwy:

Ariannu cynigion ymchwil canser a gyflwynir gan ymchwilwyr gwyddonol sy'n gysylltiedig â sefydliadau eraill yng Nghymru, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- Prifysgolion a sefydliadau academaidd a/neu ymchwil eraill; a
- darparwyr triniaeth ganser

Wrth gyflawni'r amcanion uchod, bydd Bwrdd yr ymddiriedolwyr yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr arian a godir yn cael ei ddefnyddio er budd ac i ddatblygu ymchwil a gynhelir yng Nghymru.




## Gweledigaeth, Cenhadaeth a Nodau Strategol Ymchwil Canser Cymru

**Ein Gweledigaeth:**
Cymru sydd wedi'i huno yn erbyn canser trwy ymchwil o'r radd flaenaf.

**Ein Cenhadaeth:**
Rydym yn sicrhau nad oes rhaid i bobl Cymru dderbyn canser fel clefyd sy'n bygwth bywyd. Mewn partneriaeth â gwyddonwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl Cymru, rydym yn gwneud darganfyddiadau gwyddonol sy'n trawsnewid bywydau.

**Ein Nodau Strategol:**

- Cynyddu faint o ganserau y gwneir diagnosis ohonynt yn gynnar a gwella cyfraddau goroesi
- Trawsnewid canlyniadau cleifion trwy ddarganfod a darparu profion diagnostig, triniaethau, a strategaethau arloesol
- Dileu anghydraddoldebau o ran mynychder canser a marwolaeth o ganlyniad iddo
- Datblygu capasiti ymchwil labordy a chlinigol yng Nghymru a helpu i osod ymchwil wrth wraidd y GIG yng Nghymru
- Creu brand cryf sy'n adnabyddus yn genedlaethol ac y mae pobl yn ymddiried ynddo a'i gefnogi

## Budd Cyhoeddus

Gall ymddiriedolwyr yr elusen gadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn Adran 17 Deddf Elusennau 2011 i roi sylw dyladwy i budd cyhoeddus gan y Comisiwn. Mae'r amcanion elusennol a amlinellir uchod, a gweithgareddau'r elusen yn dangos budd cyhoeddus.

## Polisïau Gwneud Grantiau

Mae grantiau a wneir gan yr elusen yn cael eu dyrannu i brosiectau ymchwil sydd wedi cael eu hasesu'n annibynnol gan ddyfarnwyr arbenigol allanol.

## Gwirfoddolwyr a Chefnogwyr

Cawn ein hariannu gan bobl Cymru ac ni fyddai unrhyw ran o'n hymchwil yn bosibl heb haelioni caredig ein cefnogwyr a'n gwirfoddolwyr.



# Cyflawniad a Pherfformiad

## Gweithgareddau Elusennol

**Cyllid Ymchwil sy'n Torri Recordiau**
Cymeradwywyd cyfanswm o fwy na £2.86 miliwn o gyllid newydd, wedi'i rannu rhwng pedair alwad ar wahân am grantiau. Dyma'r swm mwyaf o gyllid a roddwyd gan Ymchwil Canser Cymru erioed mewn un flynedd – cyflawniad rhagorol.

**Cymrodoriaeth Ymchwil Canser Cymru**
Am y tro cyntaf, lansiodd Ymchwil Canser Cymru alwad am Gymrodoriaethau ymchwil. Gyda hyd at £500,000 ar gael dros bum mlynedd, nod y Cymrodoriaethau hyn yw cefnogi datblygiad gyrfaol ymchwilydd addawol iawn, gan ganiatáu iddo ddechrau a thyfu ei grŵp ymchwil ei hun sy'n cynnal corff arwyddocaol o waith.

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth gyntaf Ymchwil Canser Cymru i Dr Bruce MacLachlan o Brifysgol Caerdydd, am ei brosiect o'r enw: "Datblygiad a Nodweddion Strwythurol Biotherapiwteg Imiwno-Oncoleg".

Mae Dr MacLachlan yn ymchwilydd uchel ei barch sy'n arbenigo mewn imiwnoleg strwythurol, ac mae ganddo hanes blaenorol cryf ym maes imiwnotherapi. Bydd ei ymchwil yn canolbwyntio ar ddeall sut mae'r system imiwnedd yn adnabod canserau a sut gellir defnyddio'r wybodaeth honno i ddylunio triniaethau newydd sy'n manteisio ar bŵer y system imiwnedd i'w llawn botensial. Yn bwysig, mae'n ceisio datblygu triniaethau sy'n gweithio i bawb, gan ystyried yr amrywiaeth enetig a welir ar draws y boblogaeth.

**Grantiau PhD a Phrosiectau**
Dyfarnwyd 10 prosiect ymchwil arall i ymchwilwyr ledled Cymru yn rhan o'r alwad am ymchwil PhD a Phrosiectau.

Gan barhau ag ymrwymiad Ymchwil Canser Cymru i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr yng Nghymru, dyfarnwyd chwe ysgoloriaeth ymchwil PhD. Mae'r rhain yn cynnwys pedwar prosiect sy'n ceisio dylunio a datblygu therapïau newydd ar gyfer ystod o fathau o ganser, gan gynnwys dwy sy'n canolbwyntio ar Lewcemia Myeloid Acíwt ac un ar ganser yr ofarïau, y mae gan y ddau ohonynt gyfraddau goroesi gwael iawn ar hyn o bryd.

Bydd ysgoloriaeth ymchwil PhD arall yn adeiladu ar Grant Arloesedd a ariannwyd yn flaenorol ac yn parhau i archwilio defnyddio sganiau MRI blaengar ar gyfer canser y brostad. Gan fanteisio ar sganiwr MRI datblygedig ym Mhrifysgol Caerdydd, yr unig un o'i fath yn y byd y gellir ei ddefnyddio yn y modd hwn ar hyn o bryd, bydd y prosiect yn defnyddio dulliau deallusrwydd artiffisial (AI) i gynhyrchu dadansoddiad manwl iawn o diwmorau'r brostad.

Gan roi sylw i'r nod strategol allweddol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau canser yng Nghymru, bydd PhD arall yn canolbwyntio ar gynyddu faint o bobl awtistig sy'n cael prawf ceg y groth. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl awtistig dipyn yn llai tebygol o gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio, felly bydd y prosiect hwn yn ymchwilio i'r rhwystrau rhag cyfranogi ac yn dylunio ymyrraeth i fynd i'r afael â nhw. Y nod yw sicrhau bod sgrinio serfigol yn dderbyniol i bobl awtistig a chynyddu nifer y bobl sy'n cael y prawf er mwyn achub bywydau.

Mae'r pedwar Grant Prosiect hefyd yn ymdrin ag ystod o fathau o ganser ac mae pob un yn defnyddio technegau modern datblygedig. Ym Mangor, bydd tîm ymchwil yn parhau â'u gwaith i ymchwilio i sut mae celloedd tiwmor yn cywiro eu DNA i wrthsefyll triniaethau cyfredol, tra bydd prosiect arall yn Abertawe yn adeiladu ar gyllid blaenorol Ymchwil Canser Cymru i barhau i ddatblygu cyffuriau newydd sy'n targedu bôn-gelloedd lewcemia. Yng Nghaerdydd, bydd prosiect newydd yn cael ei gynnal sy'n canolbwyntio ar ganser dwythell y bustl (colangiocarsinoma), sef canser anghyffredin sydd â

rhagolwg gwael iawn. Bydd prosiect arall yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd hefyd i ddatblygu feirysau 'deallus' newydd sy'n gallu cyflwyno therapïau wedi'u targedu yn syth i diwmorau pancreatig, gan alluogi'r system imiwnedd i ymladd yn erbyn y canser yn fwy effeithiol.

## Grantiau Arloesedd

Ariannodd Ymchwil Canser Cymru dri Grant Arloesedd eleni hefyd, sy'n cefnogi prosiectau cam cynnar a pheilot i helpu i wireddu syniadau newydd.

Bydd un o'r prosiectau hyn yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol De Cymru, y tro cyntaf i Ymchwil Canser Cymru gefnogi ymchwil yno. Bydd y gwaith yn datblygu cyffuriau newydd, wedi'u seilio ar y cyfansoddyn naturiol cwrcwmin, i'w defnyddio mewn canserau gynaecolegol. Yn y cyfamser, ym Mhrifysgol Bangor, cynhelir prosiect i ymchwilio i'r rhesymau pam mae gwahanol fathau o diwmorau'n lledu i rai organau ond nid eraill, gyda'r nod o wella ein dealltwriaeth o ganser metastatig. Yn olaf, ym Mhrifysgol Caerdydd, bydd prosiect yn ymchwilio i atchwanegiad profiotig sy'n ymddangos fel petai'n gwella goroesiad canser yr ysgyfaint, gan archwilio sut mae'r profiotig yn effeithio ar systemau imiwnedd cleifion i wella eu swyddogaeth wrthganser.

## BATRI

Sefydlwyd Menter Ymchwil Tiwmorau'r Ymennydd (BATRI) Ymchwil Canser Cymru yn 2024 i fynd i'r afael ag angen enfawr heb ei ddiwallu. Heb lawer o opsiynau triniaeth newydd na gwelliannau i gyfraddau goroesi yn ystod y degawdau diwethaf, ynghyd â lefelau isel o gyllid ymchwil yn y gorffennol, mae tiwmorau'r ymennydd yn faes angen allweddol ac yn gyfle enfawr i wneud gwelliannau arwyddocaol.

Yn dilyn ymlaen o flwyddyn gyntaf lwyddiannus cyllid BATRI, dyfarnodd Ymchwil Canser Cymru £720,000 arall o gyllid eleni i chwe phrosiect ymchwil wedi'u rhannu rhwng Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe. Mae tri o'r prosiectau'n ysgoloriaethau ymchwil PhD, sy'n atgyfnerthu ein cefnogaeth i'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr ymhellach.

Bydd dau o'r prosiectau'n ceisio datblygu opsiynau therapiwtig newydd ar gyfer tiwmorau'r ymennydd, yn seiliedig ar wendidau posibl a ddangoswyd gan y celloedd canser y gellid manteisio arnynt – mae un yn targedu proteinau cludo sinc ac mae'r llall yn defnyddio nanoronynnau i ladd y gell. Bydd prosiect arall yn datblygu geliau y gellir eu mewnblannu, a fydd yn cael eu mewnosod yng ngheudod y tiwmor ar ôl llawdriniaeth ac a fydd yn gallu rhyddhau cyffuriau targedig yn araf dros gyfnod o fisoedd, gan obeithio lleihau cyfraddau ailwaelu.

Bydd prosiectau eraill yn ymchwilio i rôl y system imiwnedd a sut mae'n rhyngweithio ag amrywiol fathau o gelloedd yr ymennydd, er mwyn gwella ein dealltwriaeth o sut mae tiwmorau'r ymennydd ffyrnig yn gallu gwrthsefyll triniaethau cyfredol a ffurfio dyluniad imiwnotherapïau yn y dyfodol.

## Cynhadledd Tiwmorau'r Ymennydd

Un o elfennau allweddol y Fenter Ymchwil Tiwmorau'r Ymennydd (BATRI), y tu hwnt i ariannu ymchwil yn unig, oedd meithrin ecosystem ymchwil gydweithredol ac arloesol yng Nghymru. I'r perwyl hwn, trwy gyllid gan BATRI, cynhaliodd Ymchwil Canser Cymru gynhadledd tiwmorau'r ymennydd ym mis Medi 2025.

Cafodd ei chynnal yng Ngerddi Soffia yng Nghaerdydd, a'r gynhadledd oedd y cyntaf o'i bath yng Nghymru ar gyfer tiwmorau'r ymennydd yn benodol – cyflawniad o bwys.

Roedd bron 100 o bobl yn bresennol ar y diwrnod o bob rhan o Gymru, a mynegodd llawer mwy ddiddordeb. Roeddent yn cynrychioli ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys gwyddonwyr, oncolegwyr, llawfeddygon a chynrychiolwyr Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd.

Roedd y gynhadledd yn cynnwys sgyrsiau byr gan ymchwilwyr wedi'u lleoli yng Nghymru ynghyd â phedwar prif gyflwyniad gan arbenigwyr gwadd, gan gynnwys dau siaradwr rhyngwladol o Gopenhagen a Leuven. Cyflwynwyd posteri hefyd yn ymdrin ag ystod eang o bynciau'n ymwneud â thiwmorau'r ymennydd, gan gynnwys nifer gan ymchwilwyr a ariennir gan BATRI, ac roedd digon o gyfleoedd i rwydweithio er mwyn datblygu cydweithrediadau ar gyfer y dyfodol

Roedd yr adborth o'r gynhadledd yn gadarnhaol iawn, a dywedodd 96% o'r cyfranogwyr ei bod wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau. Dyma enghraifft o'r ymatebion:

"Mae'n wych cael dechrau'r gynhadledd hon, a dylai'r tîm fod yn falch iawn."

"Cymysgedd da o gyflwyniadau ymchwil a chlinigol. Mae'n ehangu fy ngwybodaeth am gwmpas ymchwil tiwmorau'r ymennydd y tu hwnt i'm maes arbenigol ac yn cryfhau teimlad o gydweithio rhwng academyddion a chlinigwyr."

"Rwy'n falch iawn bod gennym ni gynhadledd ar diwmorau'r ymennydd yng Nghymru bellach!"



## Partneriaethau

Mae Ymchwil Canser Cymru wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau i sicrhau bod safbwyntiau'r elusen ac ymchwilwyr yng Nghymru yn cael eu clywed a'u cynrychioli yn y Senedd ac ar lefel y Deyrnas Unedig.

Ymunodd Ymchwil Canser Cymru â Chenhadaeth Canser yr Ymennydd Tessa Jowell (TJBCM) fel partner yn gynnar yn 2025, gan roi mwy o amlygrwydd a hygrededd i'r Fenter Ymchwil Tiwmorau'r Ymennydd (BATRI). Mae TJBCM yn gweithredu rhwydwaith ledled y Deyrnas Unedig sy'n cefnogi gofal ac ymchwil tiwmorau'r ymennydd, yn ogystal â lobïo llywodraethau am fwy o gymorth i'r gymuned tiwmorau'r ymennydd.

Y llynedd, dyfarnodd TJBCM statws Canolfan Ragoriaeth i Wasanaeth Clinigol Niwro-Oncoleg De Cymru – sef cydweithrediad rhwng canolfannau canser Felindre ac Abertawe. Amlygodd eu hadroddiad gyfraniad Ymchwil Canser Cymru at y cyflawniad hwn:

"Mae'r Pwyllgor yn canmol y tîm yn ne Cymru am eu hymrwymiad parhaus i ddatblygu'r gwasanaeth ers ymgeisio am fod yn Ganolfan Ragoriaeth 3 blynedd yn ôl. Mae'r adolygwyr yn tynnu sylw at y datblygiadau amlwg mewn sawl maes, yn amrywio o adsefydlu, hyfforddiant staff ac ymchwil, yn enwedig o ystyried sefydlu Menter Ymchwil Tiwmorau'r Ymennydd Ymchwil Canser Cymru ym mis Mawrth 2024."

Mae Ymchwil Canser Cymru hefyd wedi bod yn aelod gweithredol o'r Tasglu Canserau Llai Goroesadwy, sef corff sydd â changhennau yn y Deyrnas Unedig ac yn benodol i Gymru. Mae'r Tasglu'n canolbwyntio ar chwe chanser sydd â chyfraddau goroesi gwael iawn, sy'n cynrychioli tua hanner yr holl farwolaethau oherwydd canser. Yng Nghymru, mae'r grŵp wedi cynnal sawl digwyddiad yn y Senedd ac yn parhau i lobïo llunwyr polisïau i gynyddu ymwybyddiaeth a mynnu cymorth ar gyfer y canserau hyn sy'n llai goroesadwy.






### Edrych ymlaen tuag at 2026-2027

Mae 2026 yn flwyddyn arbennig gan ei bod yn 60ain pen-blwydd Ymchwil Canser Cymru.

Yn ogystal â thorri record gyda £2.86 miliwn o gyllid ymchwil, gan gynnwys Cymrodoriaeth gyntaf yr elusen, bydd y pen-blwydd yn cael ei ddathlu gyda chynhadledd ymchwil yn ystod ail hanner y flwyddyn.

Bydd y gynhadledd yn gyfle gwych i arddangos y gwaith ymchwil rhagorol y mae Ymchwil Canser Cymru yn ei ariannu ar draws y wlad, yn ogystal â chyfle i amlygu a dathlu cyflawniadau'r 60 mlynedd diwethaf.

Bydd yr elusen hefyd yn parhau â'i chenhadaeth i ariannu'r ymchwil orau yng Nghymru gyda galwadau newydd am grantiau a fydd yn cael eu lansio yn y gwanwyn.

Bydd y rhain yn cynnwys ail fersiwn o Ysgoloriaeth Pritchard a Moore, sef dyfarniad mawreddog ar gyfer ymchwil radiotherapi a meysydd cysylltiedig, a enwyd er anrhydedd am gewri yn hanes yr elusen, sef yr Athro John Pritchard a'r Athro John Moore.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ganlyniadau terfynol treial PEARL, y disgwylir iddynt ddangos budd mawr i gleifion o ddefnyddio'r dechneg radiotherapi addasol. Byddai llwyddiant o'r fath yn debygol o ffurfio'r sail i dreial Cam III ar raddfa fawr o'r dull hwn i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol o'i effeithiolrwydd ar gyfer ei weithredu'n ehangach.



## Treialon Clinigol Ymchwil Canser Cymru yn Cyflawni ar ran Pobl Cymru

Mae Ymchwil Canser Cymru yn ariannu pedwar treial astudiaethau clinigol mawr ar hyn o bryd a allai, rhyngddynt, arwain at fuddion go iawn i gleifion ar draws ystod o fathau o ganserau.

### Treial BiCCC – Atal Ailwaelu mewn Canser y Coluddyn

Mae Ymchwil Canser Cymru yn ariannu treial clinigol o'r enw BiCCC. Mae'r treial BiCCC, a arweinir gan ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd, yn defnyddio dos isel o gemotherapi i leihau cyfraddau ailwaelu canser y coluddyn. Yn seiliedig ar wybodaeth o ymchwil flaenorol a ariannwyd gan Ymchwil Canser Cymru, mae'r tîm yn defnyddio dosau isel o seicloffosffamid ar ôl llawdriniaeth i ysgogi'r system imiwnedd. Disgwylir i'r system imiwnedd glirio unrhyw gelloedd canser sydd ar ôl, gan felly atal ailwaelu. Hyd yma, mae'r treial wedi recriwtio 107 o gleifion o'i darged o 500, ac mae'r gyfradd recriwtio'n cynyddu'n raddol.

### Treial ThinkCancer! – Gwella Dulliau Canfod Canser mewn Gofal Sylfaenol

Treial Cam III yw ThinkCancer!, a arweinir gan ymchwilwyr Prifysgol Bangor, sy'n asesu effeithiolrwydd ymyrraeth gofal sylfaenol i wella canfod canser. Yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiad o brosiectau blaenorol a ariannwyd gan Ymchwil Canser Cymru, datblygodd tîm ThinkCancer! gyfres o weithdai a gyflwynir i holl staff Meddygfeydd Teulu i gynyddu ymwybyddiaeth o ganser a gwella gweithdrefnau rhwyd ddiogelwch, er mwyn sicrhau bod mwy o gleifion canser yn cael diagnosis at atgyfeiriad prydlon. Hyd yma, mae'r holl Feddygfeydd Teulu sy'n ofynnol wedi cael eu recriwtio ac wedi derbyn y gweithdai – mae'r tîm bellach yn casglu a dadansoddi'r data sylfaenol a dilynol, yn ogystal â chynnal is-astudiaethau, gan gynnwys asesiad economaidd iechyd.

### Treial PEARL ar gyfer Canser y Pen a'r Gwddf

Treial Cam II yw Pearl, wedi'i leoli yng Nghanolfan Ganser Felindre, sy'n ceisio lleihau sgil-effeithiau triniaeth radiotherapi ar gyfer cleifion canser oroffaryngol. Mae'r treial yn defnyddio dull cynllunio triniaeth addasol, sy'n golygu bod y radiotherapi'n cael ei addasu yn ystod triniaeth y claf wrth i'w diwmor grebachu, gan leihau'r niwed i feinwe amgylchynol nad yw'n ganseraidd. Recriwtiwyd 42 o gleifion i'r treial ac mae'r data'n parhau i gael ei ddadansoddi. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn edrych yn addawol a disgwylir y casgliadau terfynol yn hwyrach 2026.

### Treial Sgrinio Colospect – Prawf Gwaed i Wella Sgrinio a Chanfod Canser y Coluddyn

Mae'r treial COLOSPECT, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Abertawe, yn ymchwilio i b'un a all y prawf gwaed Raman wella'r technegau sgrinio presennol ar gyfer canser y coluddyn. Mae'r prawf gwaed, sydd wedi cael ei gefnogi gan Ymchwil Canser Cymru ers dros 10 mlynedd, yn chwilio am 'olion bysedd moleciwlaidd' canser y coluddyn mewn samplau gwaed. Mae'r treial wed gorffen recriwtio'n ddiweddar, gan recriwtio 2,017 o gleifion ledled Cymru, gan gynnwys cleifion o bob bwrdd iechyd – sy'n golygu mai COLOSPECT yw un o'r treialon clinigol mwyaf erioed yng Nghymru. Bydd y tîm bellach yn dilyn hynt y cleifion hyn i asesu cywirdeb a dibynadwyedd y prawf gwaed Raman o gymharu â'r prawf safonol presennol, sef y prawf imiwnogemegol ar ysgarthion. Disgwylir canlyniadau yn 2027, felly fe allai'r treial hwn drawsnewid sgrinio canser y coluddyn yng Nghymru yn y dyfodol agos.

## Gweithgareddau Codi Arian

Mae'r tîm cynhyrchu incwm wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol 2025/26 i gynyddu sylfaen cefnogwyr ac incwm yr elusen i'r lefelau mwyaf erioed. Mae Ymchwil Canser Cymru yn parhau i ehangu ei hymgysylltiad yn sylweddol trwy ddigwyddiadau rhedeg a her cyfranogiad torfol, gyda mwy na 1,500 o bobl yn gwneud ras neu her yn ystod y flwyddyn. Roeddem yn falch o weld 870 o redwyr ymroddedig yn cymryd rhan yn Hanner Marathon Caerdydd (CHM) 2025, gan gefnogi ein cenhadaeth hollbwysig gyda balchder. Ni yw'r unig elusen Gymreig yn haen uchaf partneriaethau (CHM), a'r unig elusen ganser.

Rydym hefyd yn ymwneud mwy â digwyddiadau rhedeg eraill ledled Cymru, gan gynnwys 10k Wrecsam, Gŵyl Redeg Casnewydd, Hanner Marathon Abertawe a Hanner Marathon Llanelli. Daeth Ymchwil Canser Cymru yn brif bartner ar gyfer 10K Ynys y Barri yn 2025, hefyd.

Lansiwyd ein cyngerdd dathliadol, sef Trysori, a gyflwynwyd gan Lysgennad Ymchwil Canser Cymru a'r cyflwynydd teledu, Mari Grug. Gwerthwyd pob tocyn ar ei gyfer. Cymerodd yr elusen ran yn Wythnos Cymru yn Llundain am y tro cyntaf hefyd, gan gynnal digwyddiad llwyddiannus a fynychwyd gan lawer ar y cyd â Nathaniel Cars ac MG Motors.

Roeddem yn falch o gael cyllid gan amrywiaeth o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, gan gynnwys Sefydliad Waterloo, Cronfa Dydd Sadwrn yr Ysbyty, Ymddiriedolaeth Elusennol Sylvia Aitkin, Sefydliad Frazer, Ymddiriedolaeth Blackwood Engineering a Sefydliad Sylvia Waddilove. Diolch i'r holl bartneriaid hyn sy'n ein helpu'n uniongyrchol i ariannu mwy o ymchwil hollbwysig yng Nghymru.

Rydym hefyd yn cydnabod cymorth gwych y Teulu Owen a gyfrannodd rodd sylweddol er cof am eu rhieni, Bryan a Barbara Owen. Er cof amdanynt, maen nhw wedi dechrau eu taith codi arian ar gyfer yr elusen ac yn falch iawn o fod wedi codi a chyfrannu dros £90,000. Bydd yr arian hwn yn cefnogi prosiect PhD a arweinir gan Dr Catia Neto o'r enw "Organoidau'r ymennydd iPSC imiwnogymwys: y ddeialog rhwng celloedd myeloid a lymffoid o fewn microamgylchedd glioblastoma".

Rydym hefyd yn parhau i gael ein cefnogi gan ein pwyllgorau codi arian hirsefydlog yn Aberhonddu a Phontsenni, a Chrucywel sy'n gweithio'n ddiflino i godi arian yn eu cymunedau. Roeddem yn falch o groesawu grŵp codi arian newydd ym Maesteg hefyd ac edrychwn ymlaen at weithio gydag aelodau'r grŵp hwnnw yn y dyfodol.

Yn unol â'r cynllun i ehangu ein tîm cynhyrchu incwm yn strategol, rydym yn cymryd camau pendant i ddatblygu ein hincwm codi arian corfforaethol, dyngarol, cymunedol, er cof a chymynrodd trwy fuddsoddi'n barhaus mewn staff a chynhyrchion newydd. Bydd presenoldeb amlycach y tîm ledled y wlad yn ein galluogi i ffurfio cysylltiadau dyfnach â busnesau, cefnogi mwy o fentrau codi arian a arweinir gan y gymuned, a darparu cymorth ymroddedig i unigolion sy'n dymuno cyfrannu rhodd er cof am anwylyd.

Yn 2025, roeddem yn falch o fod yn bartneriaid Elusen y Flwyddyn i Ferched y Wawr, Ffermwyr Ifanc Cymru, Archwilio Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Catsci, ac rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth gwych hwn yn fawr.

Cawsom gefnogaeth wych hefyd gan gyfres o gyngherddau Blackweir Live yng Nghaerdydd drwy gydol yr haf 2025, a oedd wedi ein galluogi i gynnal casgliadau bwced a derbyn rhoddion ychwanegol pan brynwyd tocynnau. Rydym yn falch y bydd y berthynas hon yn parhau yn 2026.






## Gweithgareddau Masnachu

Mae gweithrediadau manwerthu'r elusen yn parhau i ddatblygu a thyfu ein portffolio manwerthu o fewn cymunedau lleol. Am y tro cyntaf, archwiliwyd defnyddio siop sionc, a sicrhawyd uned o fewn Trago Mills yn ardal Merthyr. Cafodd ein siopau yng ngogledd Cymru eu blwyddyn llawn gyntaf o fasnachu yn llwyddiannus ar ôl ymestyn ein gweithrediadau manwerthu yn y rhanbarth hwn yn 2024-25.

Gan gynnwys Trago Mills, mae gennym rwydwaith o 17 o siopau bellach ledled Cymru ac rydym wedi parhau i weithredu ein safonau 'Gorau yn y Dref' i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael profiad cadarnhaol, cyson. Yn ogystal, rydym wedi gwella ein mesurau perfformiad, gan roi'r holl wybodaeth ac offer angenrheidiol i'n timau siop i sicrhau effeithlonrwydd gweithredol, ariannol a gweinyddol. O ganlyniad, rydym wedi gweld perfformiad ariannol gwell, ochr yn ochr â buddion ehangach fel gwell presenoldeb yn y gymuned ac ymgysylltu â chefnogwyr. Tyfodd gwerthiannau o flwyddyn i flwyddyn 23%, gan godi i £1,735,820 o gymharu â £1,427,964 yn y flwyddyn flaenorol. O ran cynaliadwyedd, rydym hefyd wedi cynyddu ein heffaith amgylcheddol trwy werthu 573,607 o unedau o stoc (117,357 yn fwy o unedau na'r flwyddyn flaenorol).

Mae ein partneriaeth â Jessica Renault yn Déjà Vu yng Nghaerdydd (bwtîc ail-law) wedi cynhyrchu £1,982 hyd yma ac yn dangos pa mor werthfawr yw cydweithio i wella ein stoc a denu cwsmeriaid newydd. Ochr yn ochr â hyn, mae ymestyn ein nwyddau newydd wedi creu dros £2,900 o incwm ychwanegol. Mae lansio eBay ym mis Hydref 2025 wedi cynnig mwy o botensial ar gyfer twf hefyd, a bwriedir cynnig hyn mewn siopau ychwanegol yn ystod 2026/27, gan gynyddu gwerth stoc a roddwyd i'r eithaf a chyrraedd mwy o bobl ar-lein.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym yn bwriadu ymestyn ymhellach gyda siop newydd ar fin agor yng Nghaerffili yn yr haf 2026. Fel rhan o'n ffocws parhaus ar berfformiad manwerthu, rydym hefyd yn paratoi ar gyfer cau dau o'n safleoedd: Abertawe, sydd wrth gwrs yn agosáu at ddiwedd eu tenantiaeth pedair blynedd ym mis Ionawr 2027; a Wrecsam lle mae gennym doriad tenantiaeth tair blynedd ym mis Mawrth 2027. Mae'r lleoliadau canol dinas hyn wedi bod yn heriol, a byddwn yn archwilio lleoliadau amgen o fewn neu'n agos i Abertawe a Wrecsam fel y gallwn barhau i weithio gyda'r cymunedau hyn i godi arian ar gyfer ymchwil newydd hollbwysig.

## Cyfathrebu a Marchnata

Parhaodd y tîm cyfathrebu a marchnata i wneud cynnydd wrth dyfu brand ac incwm yr elusen trwy gefnogi holl adrannau'r elusen a chyfleu effaith ein gwaith eleni ar draws ein sianeli – gan gynnwys digwyddiadau cyhoeddus a deunydd argraffedig, darlledu, ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi cael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i dyfu ein proffil fel elusen ymchwil canser annibynnol Cymru sy'n ymroddedig i ariannu ymchwil yng Nghymru. Er enghraifft, cafodd ein stori ynghylch diffyg cyllid ymchwil canser ym mis Rhagfyr 2025 sylw gan ITV Cymru a Planet Radio, yn ogystal ag ystod o allfeydd ar-lein a chyfryngau argraffedig. Gwnaethom hefyd sicrhau cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau darlledu ar gyfer cynhadledd y Fenter Ymchwil Tiwmorau'r Ymennydd (BATRI) ym mis Medi 2025 (S4C, BBC Radio Wales a Bauer Radio). Ar Ddiwrnod Canser y Byd 2025, hyrwyddodd BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru ein gwaith, a goleuwyd Castell Caerdydd yn ein lliwiau corfforaethol ar y diwrnod hwn hefyd i ddathlu effaith ein hymchwil.

Mae'r tîm wedi mynychu ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd eleni, fel Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Cawsom gefnogaeth werthfawr gan aelodau Pwyllgor Codi Arian Crucywel Ymchwil Canser Cymru yn y Sioe Frenhinol. Rhoddodd y digwyddiadau hyn gyfle i ni ymgysylltu'n uniongyrchol â miloedd o aelodau'r cyhoedd a ymatebodd yn gadarnhaol i'n neges mai ni yw elusen ymchwil canser Cymru.

Arweiniodd ein tîm Cyfathrebu a Marchnata prosiect mawr a sicrhaodd statws 'Cynnig Cymraeg' Comisiynydd y Gymraeg i ni fel cydnabyddiaeth o'n defnydd o'r Gymraeg. Wedi hynny, fe'n dewiswyd yn elusen y flwyddyn y Comisiynydd. Mae prosiectau eraill wedi cael eu cwblhau'n fewnol. Er enghraifft, rydym wedi gweithio gyda chwmni cynnal a datblygu gwefannau newydd, sef Pobl Tech, i fudo a gwella gwefan yr elusen.



## Ein Pobl

A ninnau'n elusen ar gyfer Cymru gyfan sydd wedi ehangu eleni, rydym wedi parhau i ddatblygu ffyrdd arloesol o gyfathrebu â'n gilydd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd staff a diweddariadau misol gan y Prif Swyddog Gweithredol, ac rydym wedi datblygu porth staff lle y rhennir newyddion ac erthyglau eraill.

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r lle amlddefnydd ar y llawr cyntaf i gynnal ein cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, cyfarfodydd gwirfoddolwyr a staff, ac fel lle rhagorol ar gyfer cydweithio. Rydym yn parhau i hwyluso gweithio hyblyg a hybrid ar gyfer staff ein pencadlys.

Rydym wedi buddsoddi mewn platfform dysgu ar-lein i wella cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer staff. Rydym wedi adolygu ein proses arfarnu, hefyd.

Rydym yn parhau i gynnig Rhaglen Cymorth i Gyflogeion sy'n cynnig cymorth cyfrinachol i staff bob awr o'r dydd a'r nos, yn ogystal â chynllun meddygol arian parod. Rydym wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad mwy cynhwysol ac rydym wedi bod yn gweithio gyda Diverse Cymru ar y fenter hon. Rydym wedi cyflawni'r safon ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn ddiweddar.



# Adolygiad Ariannol

## Y Sefyllfa Ariannol

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, buddsoddodd Ymchwil Canser Cymru £3,893,692 (2025: £2,909,683) mewn gweithgareddau elusennol, sef ariannu prosiectau ymchwil trwy grantiau yn bennaf. Cyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 oedd £5,922,513, sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol (2025: £4,274,101).

## Prif Ffynonellau Cyllid

Y prif ffynonellau incwm yw cymynroddion a rhoddion a'n cadwyn o siopau elusen. Oherwydd eu natur, mae cymynroddion a rhoddion yn ffynhonnell anwadal o incwm a daethant i gyfanswm o £2,864,445 yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 (2025: £1,964,036).

I liniaru rhywfaint o risg anwadalrwydd yr incwm hwn, mae'r elusen yn datblygu strategaethau i gynnal incwm cymynroddion a chynyddu lefelau rhoddion ymrwymedig.

## Symudiad mewn Cronfeydd

Cyfanswm yr incwm net yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026 oedd £75,003 (2025: £230,895 gwariant net). Cynyddodd cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig £249,338 i £6,326,775 (2025: cynnydd o £398,724 i £6,077,437) yn bennaf o ganlyniad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig ar gyfer rhywfaint o wariant ar brosiectau ymchwil.

## Adolygiad Buddsoddi

Ni fu unrhyw newidiadau o bwys i bolisi rheoli buddsoddiadau'r elusen yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Cedwir y buddsoddiadau'n bennaf i sicrhau bod yr elusen yn gallu bodloni rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chyllido prosiectau ymchwil cyfredol yn y dyfodol. Cyfanswm gwerth buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2026 oedd £7,025,332 (2025: £6,564,803).

## Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Mae cronfeydd wrth gefn rhydd yr elusen yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig ac eithrio asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol, a ddaeth i £6,190,340 ar ddiwedd y flwyddyn (2025: £5,875,380). Yn ogystal â chlustnodi cronfeydd ar gyfer prosiectau yr ydym eisoes wedi ymrwymo iddynt, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i dargedu lleiafswm cronfa wrth gefn o £1,500,000 a fyddai'n ddigon i dalu am tua 18 mis o dreuliau gweithredu arferol (31 Mawrth 2025: £1,500,000).

Mae'r elusen wedi cynyddu cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 £75,003 o'r flwyddyn flaenorol.

# Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

## Dogfen Lywodraethu

Sefydlwyd yr elusen yn wreiddiol ym 1966 o dan yr enw Cyngor Ymchwil Canser De Cymru ac yna fe ddaeth yn Ymchwil Canser Cymru yn ddiweddarach. Yn 2016, daeth yr elusen yn sefydliad corfforedig elusennol (CIO) ac mae wedi'i chofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau (Rhif 1167290). Cawn ein llywodraethu gan ein Cyfansoddiad. Rhestrir manylion cyfeirio a gweinyddol ar dudalen 13.

## Penodi a Hyfforddi Ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr newydd yn cael eu recriwtio a'u penodi trwy gyfrwng hysbyseb. Gofynnir i bobl ymgeisio trwy gyflwyno CV a llythyr eglurhaol ac fe'u rhoddir ar restr fer ar gyfer cyfweliad yn seiliedig ar feini prawf hanfodol yn y pecyn recriwtio. Gall ymddiriedolwyr presennol, sy'n credu bod unigolyn yn meddu ar y sgiliau a'r profiad a amlygwyd gan y Bwrdd, gynnig darpar ymgeiswyr i'w hystyried, hefyd.

Ar hyn o bryd, caiff darpar ymddiriedolwr ei gyfweld gan banel sy'n cynnwys y Cadeirydd a dau ymddiriedolwr arall. Cymeradwyir y penodiad yn ffurfiol gan Fwrdd yr ymddiriedolwyr. Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr a noddwyr newydd gadarnhau eu bod yn derbyn eu cyfrifoldebau yn unol â chyfansoddiad yr elusen.

Rhoddir pecyn croeso a chynllun sefydlu i ymddiriedolwyr newydd. Mae elfennau o'r cynllun sefydlu'n orfodol, gan gynnwys hyfforddiant ar rolau a chyfrifoldebau ymddiriedolwr. Yn ogystal, ychwanegir yr holl ymddiriedolwyr at gofrestr y Comisiwn Elusennau a byddant yn cael unrhyw ddiweddariadau i sicrhau y cyflawnir cydymffurfedd parhaus a llywodraethu da.

Mae Bwrdd yr ymddiriedolwyr a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tri mis i drafod holl faterion strategol yr elusen y mae angen i'r Bwrdd benderfynu arnynt yn unol â'r Cyfansoddiad.

Ceir dau is-bwyllgor: y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Gwyddonol. Cadeirir is-bwyllgorau gan ymddiriedolwr ac maen nhw'n cynnwys noddwyr; ein henw ar wirfoddolwyr medrus sy'n aelodau o'n his-bwyllgorau. Maen nhw'n cyfarfod bob tri mis o leiaf i wneud argymhellion gwybodus i'r Bwrdd.

### Y Pwyllgor Cyllid

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cymryd cyfrifoldeb dirprwyedig am wneud argymhellion gwybodus i Fwrdd yr ymddiriedolwyr ynglŷn â chynorthwyo a goruchwylio pob agwedd ariannol ar yr elusen a chyfeiriad cyffredinol materion ariannol Ymchwil Canser Cymru, gan gynnwys:

- Monitro cydymffurfedd â deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill, Adrodd Ariannol, Trethiant, y Ddeddf Elusennau, ac Iechyd a Diogelwch;
- Adolygu'r cynllun a'r gyllideb blynyddol, cytuno arnynt a'u hargymell;
- Perfformiad a gweithdrefnau ariannol;
- Buddsoddiadau;
- Cytuno ar y gweithlu blynyddol a'r adolygiad blynyddol o gyflogau;
- Technoleg gwybodaeth;
- Datganiadau ariannol yr elusen i asesu cyfanrwydd adrodd ariannol;
- Cwmpas, canlyniadau ac effeithiolrwydd ac annibyniaeth archwiliad allanol ac unrhyw archwiliad mewnol;
- Adolygu, asesu a rheoli risg rheolaeth ariannol.

### Y Pwyllgor Gwyddonol

Mae'r Pwyllgor Gwyddonol yn cynnwys arbenigwyr yn eu maes ac mae'n cymryd cyfrifoldeb dirprwyedig ar ran Bwrdd yr ymddiriedolwyr am roi sicrwydd iddo, ei gynorthwyo a'i gynghori ynghylch yr holl brosiectau ymchwil trwy oruchwylio, monitro, ac adolygu'r holl brosiectau a ariennir, gan gynnwys:

- Cynorthwyo staff i ddatblygu'r strategaeth wyddonol;
- Argymell ariannu prosiectau ymchwil sy'n cyflawni nodau ac amcanion Ymchwil Canser Cymru a'r strategaeth wyddonol ac sydd wedi cael eu hadolygu'n drwyadl gan gymheiriaid;
- Monitro'r holl brosiectau ymchwil a ariennir;
- Gwneud argymhellion i Fwrdd yr ymddiriedolwyr o ran gwariant ar ymchwil;
- Adolygu'r broses ar gyfer dyfarnu a monitro prosiectau;
- Adolygu risgiau gwyddonol a risgiau sy'n gysylltiedig ag ymchwil.












## Dirprwyo

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ddirprwyo'r awdurdod am gynnal cyfrifoldebau gweithredol y busnes i'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd i Fwrdd yr ymddiriedolwyr.

## Rheoli Risg

Mae gan yr elusen gofrestrau risg sefydliadol ac adrannol manwl sy'n cael eu hadolygu'n fisol gan yr uwch dîm arweinyddiaeth ac yn chwarterol gan Fwrdd yr ymddiriedolwyr. Mae risgiau newydd arwyddocaol yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd fel y bo'r angen i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n weithredol. Defnyddir system Coch, Melyn, Gwyrdd i raddio'r risgiau sefydliadol allweddol.

Mae Ymchwil Canser Cymru yn ceisio sicrhau bod ein holl weithgareddau codi arian yn agored, yn deg, yn onest, ac yn gyfreithlon. Rydym yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Codi Arian, sy'n cynnig cyngor ar sut dylai eu haelodau gynnal yr holl arferion codi arian, ac rydym wedi'n cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian. Rydym wedi gweithio i sicrhau bod data'n cael ei ddiogelu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Mae Ymchwil Canser Cymru yn trin pob cefnogwr â pharch, ac nid ydym yn defnyddio dulliau codi arian sy'n ymyrryd â phreifatrwydd, sy'n ddi-baid nac yn rhoi pwysau gormodol ar ddarpar roddwyr. Nid oedd unrhyw godwyr arian proffesiynol wedi cynnal gweithgareddau codi arian ar ein rhan yn ystod y flwyddyn. Nid ydym byth yn rhannu data y tu allan i'r elusen, oni bai bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Yn ogystal â digwyddiadau a drefnwyd gan Ymchwil Canser Cymru, rydym yn ffodus o gael ein cefnogi gan grwpiau ac unigolion sy'n codi arian ar ein rhan.

Lle bo'n bosibl, rydym yn gofyn i gefnogwyr roi gwybod i ni am eu gweithgareddau ymlaen llaw, fel bod aelod o staff yn gallu eu cefnogi a chynnig arweiniad. Fodd bynnag, yn aml, nid ydym yn ymwybodol o ddigwyddiadau o'r fath tan ar ôl iddynt ddigwydd. Felly, rydym yn darparu arweiniad ar godi arian ar wefan Ymchwil Canser Cymru i gyfeirio cefnogwyr at wybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch, trwyddedau, a rheoli risg.

Yn ystod 2025/26, nid oedd unrhyw gwynion ffurfiol ynglŷn â gwaith Ymchwil Canser Cymru. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau yn gysylltiedig â data personol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn 2025/26.

# Manylion Cyfeirio a Gweinyddol

**Rhif Elusen Gofrestredig**

1167290

**Cyfeiriad Cofrestredig**

22 Llys Neifion
Ffordd Vanguard
Caerdydd
CF24 5PJ

**Ymddiriedolwyr**

Mr G Moore .................................. Cadeirydd
Mr R Reynolds ............................. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Yr Athro C Fegan ......................... Cadeirydd y Pwyllgor Gwyddonol
Ms R Whiting ................................ Cynghorydd Cyfreithiol Anrhydeddus
Ms C Nicholls
Mr S Man
Ms S Spence
Mr S Drinkwater

**Uwch Reolwyr**

Mr A Fletcher ............................... Prif Swyddog Gweithredol
Ms A Yandall................................. Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Dr L Campbell .............................. Pennaeth Ymchwil a Chyfathrebu Gwyddonol
Ms L Boyd..................................... Pennaeth Manwerthu
Mr I Roberts ................................. Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu
Ms L Buckley................................ Pennaeth Cynhyrchu Incwm

**Archwilwyr**

Menzies LLP 5ed Llawr
Tŷ Hodge
114-116 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1DY

**Bancwyr**

Unity Trust Bank Plc
Birmingham
B1 2HB

**Cyfreithwyr**

Darwin Gray
9 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA

**Cynghorydd Buddsoddi**

RBC Brewin Dolphin
Trydydd Llawr
2 Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1FS



# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, sef Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth, yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn a sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys incwm a gwariant yr elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad Ymarfer Argymelledig (SORP) Elusennau;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan p'un a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra o fath arall.

Cymeradwywyd nhw gan Fwrdd yr ymddiriedolwyr ar 29 Gorffennaf 2026 a llofnodwyd nhw ar ei ran gan:

**G Moore**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr




# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol Ymddiriedolwyr Ymchwil Canser

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymchwil Canser Cymru (yr 'elusen') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol).

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) yn lle Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad Arferion Argymelledig, a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2005, y cyfeirir ato yn y rheoliadau presennol ond sydd wedi cael ei dynnu'n ôl.

Gwnaed hyn er mwyn i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol sy'n berthnasol ar gyfer cyfnodau adrodd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2019.

**Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:**

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2026, ei adnoddau sy'n dod i mewn a sut mae'n defnyddio adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

## Sail y Farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y Deyrnas Unedig (DU) (ISAs (UK)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'n hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.



## Casgliadau ynglŷn â Busnes Gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad fod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wnaethom, nid ydym wedi amlygu unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad Archwilwyr arnynt. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os nodwn anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu p'un a yw hyn yn peri camddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os deuwn i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethom, fod camddatgan perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd, yn hyn o beth.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn gysylltiedig â'r materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn mynnu ein bod yn rhoi gwybod i chi amdanynt, os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr yn anghyson â'r datganiadau ariannol mewn unrhyw ffordd berthnasol; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r
- cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y cyfryw reolaethau mewnol ag y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiadau o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu datod yr elusen neu roi'r gorau i weithredu neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig heblaw am wneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am Archwilio'r Datganiadau Ariannol

Cawsant ein penodi'n archwilydd o dan adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sydd mewn grym oddi tani.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatgan perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad Archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Mae'r elusen yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol. Penderfynasom fod y deddfau a'r rheoliadau canlynol yn fwyaf arwyddocaol, sef Deddf Elusennau 2011, Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, deddfwriaeth Cyflogaeth ac Iechyd a Diogelwch, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y Gofrestr Codi Arian a Chod Ymarfer Codi Arian y Deyrnas Unedig. Aseswyd i ba raddau y cydymffurfir â'r deddfau a'r rheoliadau hyn yn rhan o'n gweithdrefnau ar gyfer eitemau cysylltiedig y datganiadau ariannol.
- Deallom sut mae'r elusen yn cydymffurfio â'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol hynny trwy holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am weithdrefnau cyfreithiol a chydymffurfio. Cadarnhawyd ein hymholiadau trwy adolygu cofnodion y bwrdd.
- Asesodd y partner ymgysylltu a oedd y tîm ymgysylltu cyfan yn meddu ar y cymhwysedd a'r galluoedd priodol i amlygu neu adnabod diffyg cydymffurfedd â deddfau a rheoliadau. Nid oedd yr asesiad wedi amlygu unrhyw faterion yn y maes hwn.
- Aseswyd pa mor agored yw datganiadau ariannol yr Elusen i gamddatgan perthnasol, gan gynnwys sut gallai twyll ddigwydd. Ystyriwyd y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y sefydliad ar gyfer twyll ac amlygwyd bod y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cyflogeion ffug, cyflenwyr ffug, postio dyddlyfrau anarferol a thrafodion cymhleth a diystyru rheolaethau gan reolwyr i drin canlyniadau, neu achosi i'r Elusen wneud trafodion nad yw er ei phennaf les.
- Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd gan y tîm ymgysylltu yn cynnwys:
  - Amlygu ac asesu effeithiolrwydd dyluniad rheolaethau a roddwyd gan waith gan reolwyr i atal a chanfod twyll;
  - Deall sut mae'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu wedi ystyried a mynd i'r afael â'r posibilrwydd o ddiystyru rheolaethau neu ddylanwad amhriodol arall dros y broses adrodd ariannol;
  - Herio tybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol; ac
  - Amlygu a phrofi cofnodion dyddlyfr, yn enwedig unrhyw gofnodion dyddlyfr a bostiwyd gyda chyfuniadau cyfrif anarferol

Mae'r cyfyngiadau sy'n rhan gynhenid o archwiliad yn golygu bod perygl na fyddwn yn canfod pob achos o afreoleidd-dra, gan gynnwys y rhai sy'n arwain at gamddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf y bydd cydymffurfio â deddf neu reoliad yn cael ei ddileu o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, oherwydd byddwn yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r risg yn uwch hefyd ynglŷn ag afreoleidd-dra sy'n digwydd o ganlyniad i dwyll yn hytrach na gwall, gan fod twyll yn cynnwys celu'n fwriadol, ffugio, cydgynllwynio, anweithred neu gamliwio.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

## Defnyddio ein Hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Rhan 4 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ymgymryd â chyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a ffurfiwyd gennym.

**Clive Edwards (Uwch Archwilydd Statudol) ar gyfer ac ar ran Menzies LLP, Archwilwyr Statudol**

5ed Llawr  Tŷ Hodge
114 – 116 Heol Santes Fair
Caerdydd
CF10 1DY

Dyddiad:

Mae Menzies LLP yn gymwys i weithredu fel archwilwyr yn unol ag adran 1212 Deddf Cwmnïau 2006.



# Datganiad o Weithgareddau Ariannol

| | Nodyn | Cronfa anghyfyngedig £ | Cronfa gyfyngedig £ | 2026 Cyfanswm cronfeydd £ | 2025 Cyfanswm cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwaddolion o** | | | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | 3 | 2,723,445 | 141,000 | 2,864,445 | 1,964,036 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 4 | 2,614,211 | 31,073 | 2,645,284 | 2,095,902 |
| Incwm buddsoddi | 5 | 274,121 | - | 274,121 | 221,791 |
| Incwm arall | 6 | 138,663 | | 138,663 | (7,628) |
| Cyfanswm | | 5,750,440 | 172,073 | 5,922,513 | 4,274,101 |
| **Gwariant ar** | | | | | |
| Codi arian | 7 | 2,266,291 | - | 2,266,291 | 1,717,666 |
| Gweithgareddau elusennol: | 8 | | | | |
| Prosiectau ymchwil | | 3,547,284 | 346,408 | 3,893,692 | 2,909,683 |
| Cyfanswm | | 5,813,575 | 346,408 | 6,159,983 | 4,627,349 |
| Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau | 17 | 312,473 | - | 312,473 | 122,353 |
| **Incwm/(Gwariant) Net** | | 243,338 | (174,335) | 75,003 | (230,895) |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | 23 | - | - | - | - |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | 243,338 | (174,335) | 75,003 | (230,895) |
| **Cysoni cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 6,077,437 | 440,022 | 6,517,459 | 6,748,354 |
| **Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | 6,326,775 | 265,687 | 6,592,462 | 6,517,459 |

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

| | Nodyn | Cronfa anghyfyngedig £ | Cronfa gyfyngedig £ | 2026 Cyfanswm cronfeydd £ | 2025 Cyfanswm cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 16 | 136,435 | - | 136,435 | 202,057 |
| Buddsoddiadau | 17 | 7,025,332 | - | 7,025,332 | 6,564,803 |
| | | 7,161,767 | - | 7,161,767 | 6,766,860 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 18 | 18,453 | - | 18,453 | 29,794 |
| Dyledwyr | 19 | 1,311,924 | - | 1,311,924 | 1,357,300 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 4,566,377 | 265,687 | 4,832,064 | 3,730,469 |
| | | 5,896,754 | 265,687 | 6,162,441 | 5,117,563 |
| **Credydwyr** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus o few blwyddyn | 20 | (1,250,654) | - | (1,250,654) | (1,215,818) |
| Asedau cyfredol net | | 4,646,100 | 265,687 | 4,911,787 | 3,901,745 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | 11,807,867 | 265,687 | 12,073,554 | 10,668,605 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau | 22 | (5,481,092) | | (5,481,092) | (4,151,146) |
| **Asedau Net** | | 6,326,775 | 265,687 | 6,592,462 | 6,517,459 |
| **Cronfeydd** | 23 | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | | 6,326,775 | 6,077,437 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | | | 265,687 | 440,022 |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | | | 6,592,462 | 6,517,459 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Fwrdd yr ymddiriedolwyr ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 29 Gorffennaf 2026 a'u llofnodi ar ei ran gan:

GRJ Moore – Cadeirydd

R Reynolds - Trysorydd

# Datganiad Llif Arian

| | Nodyn | **2026**<br>**£** | 2025<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau | a | 1,004,453 | 802,075 |
| Llog a dalwyd | | - | - |
| Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu | | 1,004,453 | 802,075 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (28,923) | (147,254) |
| Prynu buddsoddiadau ased sefydlog | | (148,056) | (1,583,084) |
| Gwerthu buddsoddiadau ased sefydlog | | - | - |
| Llog a dderbyniwyd | | 202,603 | 178,343 |
| Difidendau a dderbyniwyd | | 71,518 | 43,448 |
| Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi | | 97,142 | (1,508,547) |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | 1,101,595 | (706,472) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill | | 3,730,469 | 4,436,941 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth** | b | 4,832,064 | 3,730,469 |

# Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian

## A. CYSONI INCWM/(GWARIANT) NET Â'R LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Incwm/(Gwariant) net ar gyfer y flwyddyn (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | 75,003 | (230,895) |
| Wedi'i addasu ar gyfer: | | |
| Taliadau dibrisiant | 94,545 | 94,186 |
| Enillion ar fuddsoddiadau | (312,473) | (122,353) |
| Llog a dderbyniwyd | (202,603) | (178,343) |
| Difidendau a dderbyniwyd | (71,518) | (43,448) |
| Disgowntio darpariaethau | (132,212) | 10,611 |
| Darpariaeth dadfeiliad | - | 25,166 |
| Cynnydd mewn stociau | 11,341 | (10,084) |
| Cynnydd mewn dyledwyr | 45,376 | (136,592) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn credydwyr | 1,496,994 | 1,393,827 |
| Arian parod net a ddarparwyd gan weithrediadau | 1,004,453 | 802,075 |

## B. DADANSODDI NEWIDIADAU I GRONFEYDD

| | **Ar 1 Ebrill 2025** | **Llif arian** | **Ar 31 Mawrth 2026** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| Arian parod net | | | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 3,730,469 | 1,101,595 | 4,832,064 |
| Cyfanswm | 3,730,469 | 1,101,595 | 4,832,064 |

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

## 1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Ymchwil Canser Cymru yn elusen gofrestredig, wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif elusen 1167290. Dogfen lywodraethu Ymchwil Canser Cymru yw ei Chyfansoddiad, ac mae'n Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO). Y prif gyfeiriad yw 22 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Datgelir natur gweithrediadau a phrif weithgareddau'r elusen yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn Sterling (£), sef arian cyfred gweithredol yr elusen, ac fe'u talgrynnir i'r bunt agosaf.

Amlinellir y prif bolisïau cyfrifyddu a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Cymhwyswyd y polisïau hyn yn gyson i'r holl flynyddoedd a gyflwynir oni nodir fel arall.

## 2. POLISÏAU CYFRIFYDDU

### Y Sail i Baratoi'r Datganiadau Ariannol

Paratowyd datganiadau ariannol yr elusen, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad Ymarfer Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (mewn grym o 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Elusennau 2011. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol, heblaw am fuddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys ar werth marchnad, fel y'u haddaswyd gan ailbrisio asedau penodol.

Ni fu unrhyw wyriadau o bwys o'r safon.

### Busnes Gweithredol

Nid oes unrhyw ansicrwydd o bwys yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai ddwyn amheuaeth sylweddol ar allu'r endid i barhau fel busnes gweithredol.

### Incwm

Mae'r holl incwm yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, pan fydd yn debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a phan ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae incwm o roddion a chymynroddion yn cynnwys rhoddion, anrhegion a grantiau sy'n darparu cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol. Fe'u cydnabyddir pan fydd hawl, tebygolrwydd o dderbyn ac y gellir mesur y swm yn ddigon dibynadwy. Caiff incwm o'r fath ei ohirio dim ond pan fydd y rhoddwr yn nodi bod rhaid iddo gael ei ddefnyddio mewn cyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol neu pan fydd y rhoddwr wedi gosod amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn i'r elusen gael hawl ddiamod.

Cydnabyddir incwm o weithgareddau masnachu eraill wrth i'r gwasanaethau cysylltiedig gael eu darparu a phan fydd hawl, tebygolrwydd o dderbyn ac y gellir mesur y swm yn ddigon dibynadwy. Caiff incwm ei ohirio pan dderbynnir y symiau cyn i'r gwasanaeth neu'r digwyddiad y mae'r symiau'n ymwneud ag ef gael ei ddarparu neu ei gynnal.

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau ar sail dderbyniadwy.

### Gwariant a'r Sail i Gydnabod Rhwymedigaethau

Cydnabyddir rhwymedigaethau fel gwariant cyn belled ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, ei bod yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i'w setlo ac y gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Cyfrifir am wariant ar sail croniadau ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cydgrynhoi'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau.

Mae gwariant ar godi arian yn cynnwys codi arian, costau hysbysebu a digwyddiadau, yn ogystal â chostau staff ar gyfer y tîm codi arian. Mae gweithgareddau masnachu eraill, sydd wedi'u cynnwys yn y gwariant ar godi arian, yn ymwneud â staff, safleoedd, a chostau eraill a gafwyd wrth gynnal siopau'r elusen.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny a gafwyd gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a darparu ei gwasanaethau i'w buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a chostau anuniongyrchol i'w cefnogi.

Costau cefnogi yw'r costau hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni gweithgaredd, ond nad ydynt yn cynhyrchu neu'n cynrychioli allbwn y gweithgaredd elusennol eu hunain. Mae hyn yn cynnwys costau llywodraethu, sef y costau hynny sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen, gan gynnwys y ffioedd cyfrifyddu a'r costau sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen, yn ogystal â chyfran o gyflogau yn seiliedig ar frasamcan o'r amser a dreuliwyd yn y maes hwn.

Mae gwariant yn cynnwys unrhyw Dreth ar Werth (TAW) na ellir ei hadfer yn llawn ac fe'i hadroddir fel TAW anadferadwy o fewn costau cefnogi.

Mae grantiau a gynigiwyd yn ddarostyngedig i amodau na fodlonwyd ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu nodi fel ymrwymiad ond nid ydynt yn cael eu cronni fel gwariant.

### Dyrannu a Dosrannu Costau
Gellir priodoli rhai mathau o wariant yn uniongyrchol i weithgareddau penodol ac fe'u cynhwyswyd yn y costau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwnnw. Pan na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i weithgaredd penodol, fe'u dyrannwyd ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnodd.

### Trethiant
Mae'r elusen wedi'i heithrio o dalu treth ar ei gweithgareddau elusennol.

### Cytundebau Les Weithredu
Mae rhenti sy'n berthnasol i lesoedd gweithredu lle mae bron yr holl fuddion a risgiau perchnogaeth yn aros gyda'r lesydd yn cael eu codi yn erbyn elw ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Cydnabyddir buddion cymhellion les yn y datganiad o weithgareddau ariannol dros gyfnod y les.

### Asedau Sefydlog Diriaethol
Cofnodir yr holl asedau sefydlog ar gost i ddechrau. Dim ond asedau sy'n costio £500 neu fwy sy'n cael eu cyfalafu. Yr eithriad i hyn yw pan fydd siop newydd yn cael ei hagor. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel prosiect a bydd yr holl osodiadau ac offer yn cael eu cyfalafu, ni waeth am werth eitemau unigol.

Cyfrifir dibrisiant er mwyn dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol amcangyfrifedig ar hyd oes economaidd ddefnyddiol yr ased fel a ganlyn:

| Dosbarth Ased | Cyfradd Dibrisiant |
|---|---|
| Gwelliannau i eiddo lesddaliadol | Hyd at gymal terfynu'r les |
| Gosodiadau ac offer | 20% balans sy'n lleihau/33% llinell syth |
| Cerbydau modur | 25% llinell syth |

### Buddsoddiadau
Cynhwysir buddsoddiadau ar werth marchnad ar ddyddiad y fantolen. Dangosir enillion neu golledion wedi'u realeiddio a heb eu realeiddio ar fuddsoddiadau ar wahân ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau ar sail dderbyniadwy.

### Stociau
Fel sy'n gyffredin mewn siopau elusen, nid yw'r rhan fwyaf o nwyddau sydd mewn stoc wedi cael eu prynu. Nid yw'r ymddiriedolwyr o'r farn ei bod yn ymarferol gosod gwerth ar y stoc yma, ond maen nhw wedi prisio nwyddau a brynwyd i'w hailwerthu ar lefel isaf cost a gwerth realeiddiadwy net.

Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried ei bod yn anymarferol mesur gwerth teg nwyddau a roddwyd i'w hailwerthu a bydd cost gwneud hynny'n drech na'r budd i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol. Felly, cydnabyddir nwyddau a roddwyd pan gânt eu gwerthu.

### Offerynnau Ariannol
Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n gyfystyr ag offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol ar werth y trafodiad i ddechrau ac yna fe'u mesurir ar eu gwerth setlo.

Cydnabyddir masnach a dyledwyr eraill ar y swm setlo sy'n ddyledus a chaiff rhagdaliadau eu prisio ar y swm a ragdalwyd.

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd, fwy na thebyg, yn arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti a gellir mesur neu amcangyfrif y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Fel arfer, cydnabyddir credydwyr ar eu swm setlo ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.






## Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd rhwymedigaeth (gyfreithiol neu adeiladol) bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol, ei bod yn debygol y bydd rhaid i'r elusen setlo'r rhwymedigaeth, a gellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r ystyriaeth sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth bresennol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, o ystyried y risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth.

Pan fydd effaith gwerth arian dros amser yn berthnasol, cydnabyddir y swm y disgwylir iddo fod yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar werth presennol. Cydnabyddir y symudiad ar y ddarpariaeth o ganlyniad i'r gostyngiad hwn fel incwm arall.

Caiff darpariaethau eu disgowntio i'r gwerth presennol yn seiliedig ar lifoedd arian a ddisgwylir yn y dyfodol, a'r gyfradd effeithiol fydd adenillion cyfartalog yr elusen ar fuddsoddiadau.

Mae hyn yn risg o ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amseriad llifoedd arian a'r amcangyfrif sy'n ymwneud â phennu'r gyfradd effeithiol. Cydnabyddir darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau ar sail les unigol ac fe'u seilir ar yr amcangyfrif gorau o'r all-lif arian parod tebygol. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant prosiect sy'n daladwy. Mae swm ac amseriad taliadau prosiect yn ansicr gan eu bod yn dibynnu ar gynnydd a gwariant, felly mae risg na fydd y ddarpariaeth yn cyfateb i'r cyllid grant a fydd yn daladwy yn y pen draw.

## Cyfrifyddu'r Gronfa

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr.

Gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig at ddibenion cyfyngedig penodol yn unig o fewn amcanion yr elusen.

Mae cyfyngiadau'n codi pan fydd y rhoddwr yn eu nodi neu pan godir arian at ddibenion cyfyngedig penodol.

Esbonnir natur a diben pob cronfa ymhellach yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

## Costau Pensiwn a Buddion Eraill Ar Ôl Ymddeol

Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig gyda Royal London. Mae cyfraniadau sy'n daladwy yn cael eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## Dyfarniadau ac Amcangyfrifon Cyfrifyddu Arwyddocaol

Mae amcangyfrifon a dyfarniadau'n cael eu gwerthuso'n barhaus ac wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill perthnasol, gan gynnwys disgwyliadau ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i reolwyr wneud amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu canlyniadol, yn ôl eu diffiniad, yn wahanol i'r canlyniadau gwirioneddol cysylltiedig. Trafodir isod yr amcangyfrifon a'r tybiaethau y mae risg sylweddol y gallent achosi addasiad o bwys i symiau cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Cydnabyddir darpariaethau pan fydd rhwymedigaeth (gyfreithiol neu adeiladol) bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol, ei bod yn debygol y bydd rhaid i'r elusen setlo'r rhwymedigaeth, a gellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.
- Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r ystyriaeth sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth bresennol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, o ystyried y risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth.
- Pan fydd effaith gwerth arian dros amser yn berthnasol, cydnabyddir y swm y disgwylir iddo fod yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar werth presennol. Cydnabyddir y symudiad ar y ddarpariaeth o ganlyniad i'r gostyngiad hwn fel incwm arall.
- Caiff darpariaethau eu disgowntio i'r gwerth presennol yn seiliedig ar lifoedd arian a ddisgwylir yn y dyfodol, a'r gyfradd effeithiol fydd adenillion cyfartalog yr elusen ar fuddsoddiadau. Mae hyn yn risg o ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amseriad llifoedd arian a'r amcangyfrif sy'n ymwneud â phennu'r gyfradd effeithiol. Cydnabyddir darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau ar sail les unigol ac fe'u seilir ar yr amcangyfrif gorau o'r all-lif arian parod tebygol. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant prosiect sy'n daladwy. Mae swm ac amseriad taliadau prosiect yn ansicr gan eu bod yn dibynnu ar gynnydd a gwariant, felly mae risg na fydd y ddarpariaeth yn cyfateb i'r cyllid grant a fydd yn daladwy yn y pen draw.

## 3. RHODDION A CYMYNRODDION

| | Cronfa anghyfyngedig £ | Cronfa gyfyngedig | 2026 Cyfanswm £ | 2025 Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Rhoddion | 123,797 | 91,000 | 214,797 | 217,377 |
| Ymddiriedolaethau | 149,128 | - | 149,128 | 27,200 |
| Cymynroddion | 2,450,520 | 50,000 | 2,500,520 | 1,698,819 |
| Grantiau | - | - | - | 20,640 |
| **Cyfanswm** | 2,723,445 | 141,000 | 2,864,445 | 1,964,036 |

| **Mae grantiau a dderbyniwyd, a gynhwyswyd yn yr uchod, fel a ganlyn:** | **2026 Cyfanswm** £ | 2025 Cyfanswm £ |
|---|---|---|
| Gwirfoddoli Cymru CGGC | - | 20,640 |
| **Cyfanswm** | - | 20,640 |

## 4. GWEITHGAREDDAU MASNACHU ERAILL

| | Cronfa anghyfyngedig £ | Cronfa gyfyngedig £ | 2026 Cyfanswm £ | 2025 Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Codi arian | 721,739 | 27,830 | 749,569 | 582,536 |
| Incwm manwerthu | 1,892,472 | 3,243 | 1,895,715 | 1,513,366 |
| **Cyfanswm** | 2,614,211 | 31,073 | 2,645,284 | 2,095,902 |

## 5. INCWM BUDDSODDI

| | **2026** £ | 2025 £ |
|---|---|---|
| Incwm o gyfranddaliadau mewn cwmnïau rhestredig | 71,518 | 43,448 |
| Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg | 202,603 | 178,343 |
| **Cyfanswm** | 274,121 | 221,791 |

## 6. INCWM ARALL

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Disgowntio darpariaethau | 132,212 | (10,611) |
| Incwm amrywiol | 6,451 | 2,520 |
| Breindaliadau | - | 463 |
| **Cyfanswm** | 138,663 | (7,628) |

## 7. CODI ARIAN

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **Codi rhoddion a chymynroddion** | | |
| Costau staff codi arian | 340,473 | 129,814 |
| Treuliau cymynrodd a rhodd cymorth | 4,718 | 8,466 |
| Digwyddiadau a gwariant codi arian cyffredinol | 206,207 | 126,810 |
| Dibrisiant | 2,393 | 1,297 |
| | 553,791 | 266,387 |
| **Gweithgareddau masnachu eraill** | | |
| Costau staff manwerthu | 1,004,977 | 809,039 |
| Pryniadau manwerthu | 8,373 | 4,522 |
| Costau safleoedd manwerthu a warws | 368,560 | 375,433 |
| Costau manwerthu eraill | 215,117 | 130,963 |
| Dadfeiliadau | - | 25,166 |
| Dibrisiant | 86,015 | 85,984 |
| | 1,683,346 | 1,431,107 |

Mae'r dibrisiant uchod yn ymwneud â cherbydau modur, offer swyddfa a gwelliannau i eiddo lesddaliadol

| | | |
|---|---|---|
| **Costau rheoli buddsoddiadau** | | |
| Costau rheoli buddsoddiadau | 29,154 | 20,172 |
| | 29,154 | 20,172 |
| **Cyfanswm Codi Arian** | 2,266,291 | 1,717,666 |

## 8. COSTAU GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| | **Prosiectau ymchwil** | Prosiectau ymchwil |
| Costau uniongyrchol (nodyn 9) | 162,857 | 140,712 |
| Cyllid grant ar gyfer gweithgareddau (nodyn 10) | 2,885,764 | 2,101,830 |
| Costau cymorth (nodyn 11) | 845,071 | 667,141 |
| **Cyfanswm** | 3,893,692 | 2,909,683 |

## 9. COSTAU UNIONGYRCHOL GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| | **Prosiectau ymchwil** | Prosiectau ymchwil |
| Costau staff | 120,473 | 111,612 |
| Gwariant ymchwil canser uniongyrchol | 30,202 | 12,765 |
| Costau cyfathrebu gwyddonol | 12,182 | 16,335 |
| **Cyfanswm** | 162,857 | 140,712 |

## 10. GRANTIAU SY'N DALADWY

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Prosiectau ymchwil | 2,885,764 | 2,101,830 |
| **Roedd cyfanswm y grantiau a dalwyd i sefydliadau yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:** | | |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | | |
| Prifysgol Caerdydd | 2,277,466 | 1,225,077 |
| Prifysgol Bangor | 246,073 | 100,000 |
| Prifysgol Abertawe | 328,819 | 759,798 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | - | 40,000 |
| Prifysgol De Cymru | 39,596 | - |
| Addasiadau eraill wrth gau prosiectau | (6,190) | (23,045) |
| **Cyfanswm** | 2,885,764 | 2,101,830 |

Mae'r holl grantiau sy'n daladwy ar gyfer darparu cyllid a chefnogi cyfleusterau ymchwil canser yng Nghymru. Mae'r grantiau uchod sy'n daladwy yn cynnwys adfachu cyllid ar gyfer gorddarparu taliadau granthanesyddol sy'n ddyledus.

## 11. COSTAU CYMORTH

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| | **Prosiectau ymchwil** | Prosiectau ymchwil |
| Costau staff | 399,902 | 343,075 |
| Dibrisiant | 6,138 | 5,024 |
| Gorbenion eraill | 92,640 | 48,363 |
| Brandio/Hysbysebu/Cyhoeddusrwydd | 157,770 | 56,207 |
| Datblygu gwefan | 14,270 | 12,153 |
| Costau TG | 83,038 | 65,248 |
| Adnoddau dynol | 23,289 | 34,022 |
| Costau llywodraethu | 27,492 | 33,212 |
| Safle pencadlys | 40,532 | 44,987 |
| Ymgynghoriaeth | - | 24,850 |
| **Cyfanswm** | 845,071 | 667,141 |

Roedd Costau Llywodraethu'n cynnwys cydnabyddiaeth ariannol yr archwilwyr, sef £7,500 (2025: £7,500)..

## 12. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL A BUDDION YMDDIRIEDOLWYR

Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol na buddion eraill i ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 nac ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Talwyd treuliau ymddiriedolwyr o £Dim (2025 - £Dim) i ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 i ad-dalu costau teithio.

## 13. COSTAU STAFF

| | **2026 Cyfanswm** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Cyflogau | 1,543,143 | 1,203,601 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 177,527 | 99,508 |
| Pensiwn | 145,155 | 90,429 |
| **Cyfanswm** | 1,865,825 | 1,393,538 |

| **Y nifer fisol o gyflogeion, ar gyfartaledd, yn ystod y flwyddyn oedd:** | **Nifer** | Nifer |
|---|---|---|
| Ymchwil | 2 | 2 |
| Cynhyrchu Incwm | 9 | 5 |
| Manwerthu | 40 | 34 |
| Marchnata/Cyfathrebu | 2 | 2 |
| Gweinyddu a Llywodraethu | 8 | 7 |
| **Cyfanswm** | 61 | 50 |

| **Nifer y cyflogeion yr oedd eu henillion yn gyfystyr â chyfradd o fwy na £60,000 yn ystod y flwyddyn oedd** | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **Nifer** | Nifer |
| £70,000 - £80,000 | 1 | - |
| £60,000 - £70,000 | 1 | - |
| Cyfraniadau pensiwn | £7,725 | - |

Cyfanswm buddion cydnabyddiaeth ariannol personél rheoli allweddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 oedd £428,530 (2025: £297,560).

Diffinnir personél rheoli allweddol fel aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan gynnwys y Prif Weithredwr, ac roeddent yn cynnwys chwe unigolyn yn ystod y flwyddyn (2025: 6).

## 14. CYMARYDDION AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

| | Cronfa anghyfyngedig £ | Cronfa gyfyngedig £ | 2025 Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION** | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | 1,939,036 | 25,000 | 1,964,036 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 2,077,577 | 18,325 | 2,095,902 |
| Incwm buddsoddi | 221,791 | - | 221,791 |
| Incwm arall | (7,628) | - | (7,628) |
| **Cyfanswm** | 4,230,776 | 43,325 | 4,274,101 |
| **GWARIANT** | | | |
| Codi arian | 1,717,666 | - | 1,717,666 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | |
| Prosiectau ymchwil | 2,236,739 | 672,944 | 2,909,683 |
| **Cyfanswm** | 3,954,405 | 672,944 | 4,627,349 |
| Enillion/(Colledion) net ar fuddsoddiadau | 122,353 | - | 122,353 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | 398,724 | (629,619) | (230,895) |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | - | - | - |
| **SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD** | 398,724 | (629,619) | (230,895) |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | |
| **Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen** | 5,678,713 | 1,069,641 | 6,748,354 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | 6,077,437 | 440,022 | 6,517,459 |

## 15. OFFERYNNAU ARIANNOL

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **Asedau ariannol** | | |
| Asedau ariannol sy'n offerynnau dyled a fesurwyd ar gost wedi'i hamorteiddio | 5,795,680 | 4,846,876 |
| Asedau ariannol a fesurwyd ar werth teg | 7,025,332 | 6,564,803 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | |
| Rhwymedigaethau ariannol a fesurwyd ar gost wedi'i hamorteiddio | 1,123,367 | 1,124,494 |
| Rhwymedigaethau ariannol a fesurwyd ar werth teg | 5,487,881 | 4,162,194 |

Mae asedau ariannol a fesurwyd ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys arian parod yn y banc, dyledwyr masnach, cymynroddion, dyledwyr eraill ac incwm cronedig. Mae asedau ariannol a fesurwyd ar werth teg yn cynnwys buddsoddiadau ased sefydlog.

Mae rhwymedigaethau ariannol a fesurwyd ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys taliadau cyllid prosiect sy'n ddyledus, credydwyr eraill a chroniadau. Mae rhwymedigaethau ariannol a fesurwyd ar werth teg yn cynnwys darpariaethau sy'n deillio o rwymedigaeth gytundebol.

## 16. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

| | **Gwelliannau i Eiddo Lesddaliadol** | **Gosodiadau ac offer** | **Cerbydau Modur** | **2026 Cyfanswm** | 2025 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | **£** | £ |
| **COST** | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 229,507 | 191,329 | 45,981 | 466,817 | 415,823 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 0 | 5,728 | 23,195 | 28,923 | 147,247 |
| Gwarediadau yn ystod y flwyddyn | | (10,015) | (15,000) | (130,868) | (96,253) |
| Ailddosbarthu | 5,060 | (5,060) | - | - | - |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | 128,714 | 181,982 | 54,176 | 364,872 | 466,817 |
| **DIBRISIANT** | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 148,381 | 86,285 | 30,094 | 264,760 | 266,827 |
| Tâl ar gyfer y flwyddyn | 29,268 | 54,046 | 11,231 | 94,545 | 94,186 |
| Dibrisiant ar warediadau | (105,853) | (10,015) | (15,000) | (130,868) | (96,253) |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | 71,796 | 130,316 | 26,325 | 228,437 | 264,760 |
| **GWERTH NET AR Y LLYFRAU** | | | | | |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | 56,918 | 51,666 | 27,851 | 136,435 | 202,057 |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 81,126 | 105,044 | 15,887 | 202,057 | 148,996 |

## 17. BUDDSODDIADAU ASED SEFYDLOG

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **GWERTH MARCHNADOL** | | |
| Ar 1 Ebrill | 6,564,803 | 4,859,366 |
| Ychwanegiadau | 148,056 | 1,583,084 |
| Ailbrisiadau | 312,473 | 122,353 |
| Ar 31 Mawrth | 7,025,332 | 6,564,803 |
| **GWERTH NET AR Y LLYFRAU** | 7,025,332 | 6,564,803 |

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **Cost hanesyddol buddsoddiadau** | 5,193,992 | 3,462,852 |
| **Dadansoddiad o fuddsoddiadau rhwng cronfeydd:** | | |
| Buddsoddiadau rhestredig | 5,226,648 | 5,342,753 |
| Arian parod yn y Deyrnas Unedig a ddelir yn rhan o bortffolio | 1,798,684 | 1,222,050 |
| | 7,025,332 | 6,564,803 |

| **Cynrychiolir cost y prisiad ar 31 Mawrth 2026 gan** | **Buddsoddiadau** |
|---|---|
| | **£** |
| Cost | 5,193,992 |
| Prisiad yn 2020 | 733,672 |
| Prisiad yn 2021 | 756,570 |
| Prisiad yn 2022 | 19,771 |
| Prisiad yn 2023 | (361,512) |
| Prisiad yn 2024 | 248,013 |
| Prisiad yn 2025 | 122,353 |
| Prisiad yn 2026 | 312,473 |
| | 7,025,332 |

## 18. STOC

| | 2026 | 2025 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Stoc | 18,453 | 29,794 |
| **Cyfanswm** | 18,453 | 29,794 |

## 19. DYLEDWYR: SYMIAU SY’N DOD YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | 2026 | 2025 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Dyledwyr eraill | 1,355 | - |
| Cymynroddion sy’n ddyledus | 902,645 | 994,738 |
| TAW | 26,912 | 33,759 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 381,012 | 328,803 |
| **Cyfanswm** | 1,311,924 | 1,357,300 |

## 20. CREDYDWYR: SYMIAU SY’N DOD YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | 2026 | 2025 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| TAW | - | - |
| Nawdd cymdeithasol a threthi eraill | - | - |
| Taliadau cyllid prosiect sy’n ddyledus | 918,838 | 844,262 |
| Credydwyr eraill | 153,212 | 257,288 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 178,604 | 114,268 |
| **Cyfanswm** | 1,250,654 | 1,215,818 |

Mae’r croniadau a’r incwm gohiriedig uchod yn cynnwys incwm gohiriedig o £119,005 (2025: £63,877). Mae hyn yn ymwneud ag incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw ar gyfer ymgyrchoedd a digwyddiadau sy’n digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

| | 2026 | 2025 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Incwm gohiriedig a ddygwyd ymlaen | 63,877 | 69,379 |
| Wedi’i ryddhau i’r Datganiad o Weithgareddau Ariannol | (63,877) | (69,379) |
| Incwm ychwanegol a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn | 119,005 | 63,877 |
| **Cyfanswm** | 119,005 | 63,877 |

## 21. CYTUNDEBAU LES

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| **Mae lleiafswm taliadau les o dan lesoedd gweithredu na ellir eu canslo yn ddyledus fel a ganlyn:** | **£** | £ |
| O fewn blwyddyn | 273,017 | 282,060 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 285,296 | 340,343 |
| **Cyfanswm** | 558,313 | 622,403 |

Daeth cyfanswm y taliadau les weithredu a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn ystod y flwyddyn i £295,723 (2025: £246,003).

## 22. DARPARIAETH AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Ymrwymiadau grant prosiect | 5,161,604 | 3,831,658 |
| Darpariaeth dadfeiliad | 319,488 | 319,488 |
| **Cyfanswm** | 5,481,092 | 4,151,146 |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau grant prosiect** | | **£** |
| Balans ar 1 Ebrill 2025 | | 3,831,658 |
| Ymrwymiadau grant prosiect newydd: | | |
| Prosiectau ymchwil a ddyfarnwyd | 2,891,954 | |
| Tanwariant grant a adferwyd | (6,190) | |
| Grantiau sy’n daladwy Prosiectau ymchwil (Nodyn 10) | | 2,885,764 |
| Grantiau sy’n daladwy yn ystod y flwyddyn | | (1,423,606) |
| Disgowntio darpariaethau | | (132,212) |
| Balans ar 31 Mawrth 2026 | | 5,161,604 |

Mae grantiau prosiect yn para am dymor safonol o hyd at 3 blynedd, yn gyffredinol. O ystyried natur prosiectau, mae swm ac amseriad taliadau prosiect yn ansicr gan eu bod yn dibynnu ar gynnydd a gwariant..

## 23. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| | Ar 1 Ebrill 2025 | Symudiad net mewn cronfeydd | Trosglwydd-iadau rhwng cronfeydd | Ar 31 Mawrth 2026 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 6,077,437 | 249,338 | - | 6,326,775 |
| Cyfanswm | 6,077,437 | 249,338 | - | 6,326,775 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Tom Walker | 81,653 | (39,892) | - | 41,761 |
| Nicholas Roe – Prosiect Lewcemia | - | - | - | - |
| Cronfa Gymorth Ymchwil Feddygol COVID Llywodraeth y Deyrnas Unedig | 333,369 | (291,827) | - | 41,542 |
| Sefydliad Waterloo | 25,000 | - | - | 25,000 |
| Y Teulu Owen | - | 91,000 | - | 91,000 |
| Merched y Wawr | - | 16,384 | - | 16,384 |
| Y Teulu Price | - | 50,000 | - | 50,000 |
| Cyfanswm | 440,022 | (174,335) | - | 265,687 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 6,517,459 | 75,003 | - | 6,592,462 |

| **Mae'r symudiad net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn** | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a wariwyd | Enillion a cholledion | Symudiad mewn cronfeydd |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 5,750,440 | (5,813,575) | 312,473 | 249,338 |
| | 5,750,440 | (5,813,575) | 312,473 | 249,338 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Tom Walker | 14,689 | (54,581) | - | (39,892) |
| Nicholas Roe – Prosiect Lewcemia | - | - | - | - |
| Cronfa Gymorth Ymchwil Feddygol COVID Llywodraeth y Deyrnas Unedig | - | (291,827) | - | (291,827) |
| Sefydliad Waterloo | - | - | - | - |
| Y Teulu Owen | 91,000 | - | - | 91,000 |
| Merched y Wawr | 16,384 | - | - | 16,384 |
| Y Teulu Price | 50,000 | - | - | 50,000 |
| Cyfanswm | 172,073 | (346,408) | - | (174,335) |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 5,922,513 | (6,159,983) | 312,473 | 75,003 |

## 23.SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

### Cymaryddion ar gyfer symudiad mewn cronfeydd

| | Ar 1 Ebrill 2024 | Symudiad net mewn cronfeydd | Trosglwydd-iadau rhwng cronfeydd s | Ar 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 5,678,713 | 398,724 | - | 6,077,437 |
| Cyfanswm | 5,678,713 | 398,724 | - | 6,077,437 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Tom Walker | 102,640 | (20,987) | - | 81,653 |
| Teulu Roe – Prosiect Lewcemia | 50,000 | (50,000) | - | - |
| Cronfa Gymorth Ymchwil Feddygol COVID Llywodraeth y Deyrnas Unedig | 917,001 | (583,632) | - | 333,369 |
| Sefydliad Waterloo | | 25,000 | - | 25,000 |
| Cyfanswm | 1,069,641 | (629,619) | - | 440,022 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 6,748,354 | (230,895) | - | 6,517,459 |

| **Mae'r symudiad net cymharol mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn:** | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a wariwyd | Enillion a cholledion | Symudiad mewn cronfeydd |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 4,230,776 | (3,954,405) | 122,353 | 398,724 |
| Cyfanswm | 4,230,776 | (3,954,405) | 122,353 | 398,724 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Tom Walker | 18,325 | (39,312) | - | (20,987) |
| Teulu Roe – Prosiect Lewcemia | - | (50,000) | - | (50,000) |
| Cronfa Gymorth Ymchwil Feddygol COVID Llywodraeth y Deyrnas Unedig | - | (583,632) | - | (583,632) |
| Cronfa Gwariant Cyfalaf | 25,000 | - | - | 25,000 |
| Cyfanswm | 43,325 | (672,944) | - | (629,619) |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 4,274,101 | (4,627,349) | 122,353 | (230,895) |

## Cronfa Tom Walker

**Tiwmorau'r Ymennydd**
Derbyniwyd incwm codi arian yn ystod y flwyddyn i ariannu ymchwil ynglŷn â dau brosiect. Mae un prosiect yn ceisio efelychu tiwmorau'r ymennydd mewn cyd-destun trwy greu ymenyddiau bach, ac mae'r ail brosiect yn creu feirysau i ymosod ar diwmorau'r ymennydd. Mae'r ddau wedi'u lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn cydweithio i gynyddu buddion y ddau brosiect i'r eithaf.

**Celloedd T Profiotig**
Derbyniwyd incwm codi arian yn ystod y flwyddyn i ariannu ymchwil ynglŷn ag effaith profiotigau penodol ar system imiwnedd cleifion canser yr ysgyfaint.

**Cyffredinol**
Derbyniwyd incwm codi arian yn ystod y flwyddyn i ariannu ymchwil er cof am Tom Walker.

Penderfynir ar brosiectau penodol.

## Cronfa Gymorth Ymchwil Feddygol COVID Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Derbyniwyd grant i sicrhau bod prosiectau presennol yr effeithiodd y pandemig COVID arnynt yn gallu parhau. Nod y cyllid yw gwarchod y llif ymchwilwyr gyrfa gynnar ac arweinwyr ymchwil yn y dyfodol.

## Sefydliad Waterloo

Derbyniwyd grant i ariannu astudiaeth ddichonoldeb i asesu ymarferoldeb defnyddio sganiwr MRI datblygedig ym Mhrifysgol Caerdydd ar gyfer plant sydd â thiwmorau'r ymennydd.

## Y Teulu Owen

Mae'r teulu Owen yn ariannu datblygu'r model o ymennydd bach mewn labordy ymhellach i wella ei berthnasedd ffisiolegol.

## Merched y Wawr

Derbyniwyd incwm codi arian yn ystod y flwyddyn i ariannu canser y fron neu iechyd menywod. Penderfynir ar brosiectau penodol.

## Y Teulu Price

Mae'r teulu'n ariannu dau brosiect, un ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n defnyddio eu sganiwr MRI byd-arweiniol i sganio canser y brostad yn fanylach nag erioed o'r blaen. Bydd hyn yn mireinio diagnosis ac yn llywio penderfyniadau triniaeth. Mae'r prosiect arall ym Mhrifysgol Bangor a bydd yn dadansoddi cod genetig canserau amrywiol i ddeall pam

# 23. RHWYMEDIGAETHAU BUDDION CYFLOGEION

Mae'r elusen yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig ar gyfer cyflogeion Ymchwil Canser Cymru. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i rai'r elusen mewn cronfeydd a weinyddir yn annibynnol.

Mae'r tâl cost pensiwn yn cynrychioli cyfraniadau a dalwyd gan yr elusen i'r cronfeydd uchod, ac fe ddaeth i £145,155 (2025: £90,429). Daeth y cyfraniadau a oedd yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn i £Dim (2025: £Dim).

# 24. DATGELIADAU PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Nid oes unrhyw ddatgeliadau partïon cysylltiedig.

# 25. ASED AMODOL

Ar 31 Mawrth 2026, roedd yr elusen wedi cael gwybod am yr hawl i gyfran o nifer o ystadau cymynrodd. Ni ellir mesur gwerth ariannol y cymynroddion yn ddibynadwy, felly ni chydnabuwyd incwm yn y datganiadau ariannol hyn. Cydnabyddir y cymynroddion fel incwm pan fydd y meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni.


ymchwil canser
cymru
cancer research
wales


THE BIG LITTLE
TRACTOR PROJECT
DAU DRACTOR - UN RHEDIAD TRACTOR
TWO TRACTORS - ONE TRACTOR RUN
OKX 236
Noddwyd gan
Sponsored by
Brodyr EVANS Bros
MASSEY FERGUSON DEALERS FOR WEST, MID & SOUTH WALES
www.brodyrevansbros.co.uk

Mae Ymchwil Canser Cymru yn Sefydliad Corfforedig
Elusennol Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr.
Rhif Elusen: 1167290. Cyfeiriad Cofrestredig:
22 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd, CF24 5PJ

ymchwil canser cymru
cancer research wales